Hawdd ei Ddeall

# Sbwriel a gwastraff plastig

## Adroddiad Senedd Ieuenctid Cymru ar leihau sbwriel a gwastraff plastig

Cafodd y ddogfen hon ei hysgrifennu gan **Senedd Ieuenctid Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Adroddiad Arbed, Ailddefnyddio ac Ailgylchu**'.

**Tachwedd 2020**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon

Fersiwn hawdd ei ddeall yw hwn. Mae'r geiriau a'r hyn maen nhw'n feddwl yn hawdd i'w darllen a'u deall.



Efallai y bydd arnoch chi angen help i ddarllen a deall y ddogfen hon. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Efallai y bydd y geiriau mewn **ysgrifennu glas** trwm yn anodd i'w deall. Mae'n dweud beth maen nhw'n feddwl mewn bocs o dan y gair.



Os bydd y gair anodd yn cael ei ddefnyddio eto bydd mewn ysgrifennu glas cyffredin. Gallwch chi edrych beth mae'r geiriau mewn glas yn meddwl ar **dudalen 23.**

Pan fydd y ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Pwyllgor Sbwriel a Gwastraff Plastig** Senedd Ieuenctid Cymru. I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â:

**Cyfeiriad:** Senedd Ieuenctid Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

**Ffôn:** 0300 200 6565

**E-bost:** hello@youthparliament.wales

Cafodd y ddogfen hon ei gwneud yn **hawdd ei deall** gan Hawdd ei Ddeall Cymru gan ddefnyddio **Photosymbols**.

# Cynnwys

Tudalen

**Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon....................................................................2**

**Cyflwyniad...............................................................................................4**

**Pam mae arnon ni angen lleihau sbwriel a gwastraff plastigc ...............8**

**Ein gwaith..............................................................................................11**

**Y pethau ddywedodd pobl ifainc.........................................................13**

Ypethau ddysgon ni.............................................................................16

**Y pethau ddywedodd pobl ifainc am wasanaethau i leihau sbwriel a gwastraff.................................................................................................17**

Ypethau ddysgon ni.............................................................................20

**Y pethau rydyn ni'n meddwl sydd angen digwydd nesaf........................21**

**Geiriau anodds.......................................................................................23**

# Cyflwyniad



Ni yw **pwyllgor Sbwriel a Gwastraff Plastig** Senedd Ieuenctid Cymru.



Mae Senedd Ieuenctid Cymru yn grŵp o 60 o bobl ifainc rhwng 11 a 18 mlwydd oed. Rydyn ni'n sefyll dros farn plant a phobl ifainc ar draws Cymru.






Yn ein cyfarfod cyntaf, fe ddewison ni **Sbwriel a Gwastraff Plastig** fel un o'r tri pheth pwysig roedd arnon ni eisiau canolbwyntio arnyn nhw.



Fe gychwynnon ni B**wyllgor Sbwriel a Gwastraff Plastig** i weithio ar hyn.






Fe ddosbarthon ni arolygon i weld beth mae pobl ifainc yn ei feddwl am **arbed**, **ailddefnyddio** ac **ailgylchu** gwastraff.



Mae **arbed gwastraff** yn meddwl lleihau faint o sbwriel rydyn ni’n ei daflu i ffwrdd. Gallwn ni wneud hyn trwy:

- **Arbed** rhag prynu’r pethau sydd wedi’u lapio mewn plastig.

- **Ailddefnyddio** pethau eto. Er enghraifft poteli llefrith gwydr y mae’n bosibl eu hail-lenwi pan fyddwch chi wedi gorffen.

- **Ailgylchu** ein sbwriel. Mae hyn yn meddwl cymryd ein sbwriel a’i droi yn rhywbeth arall y gallwn ni ei ddefnyddio.



Fe atebodd tua 2000 o bobl ifainc o wahanol fannau ar draws Cymru yr arolwg.




Fe hoffen ni ddiolch i bawb gymerodd ran yn yr arolwg.



Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â:

- y gwaith wnaethon ni
- y pethau ddywedodd pobl ifainc am leihau sbwriel a gwastraff plastig
- a'r pethau rydyn ni'n meddwl sydd angen digwydd nesaf.



# Pam mae arnon ni angen lleihau sbwriel a gwastraff plastig



Mae sbwriel a gwastraff plastig yn ddrwg iawn i'n **hamgylchedd** ni.

Yr **amgylchedd** yw'r lle rydyn ni'n byw. Mae'n cynnwys y tir, y môr, yr aer a phopeth sy'n byw arnyn nhw ac ynddyn nhw. Er enghraifft: planhigion, anifeiliaid a physgod.




Mae llawer o blastig yn y moroedd. Mae hyn yn beryglus i bopeth sy'n byw yn môr.



Mae gwastraff plastig hefyd yn gwneud **newid hinsawdd** yn waeth.

Mae **hinsawdd** yn meddwl y math o dywydd sy'n dueddol o ddigwydd mewn gwahanol wledydd neu rannau o'r byd dros gyfnod hir. Mae **newid hinsawdd** yn ymwneud â newidiadau i batrymau tywydd y byd fel ein haer a'n dŵr yn cynhesu.



Rydyn ni'n gweithio'n galed i leihau gwastraff plastig yng Nghymru.



Ond mae llawer o blastig yn dal i gael ei wneud yng Nghymru bob blwyddyn. Ac mae llawer o blastig a allai gael ei ailgylchu ond sydd ddim yn cael ei ailgylchu.




Yn 2019, gofynnodd **pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig Senedd Cymru** i'r Llywodraeth wneud newidiadau i leihau y defnydd o blastig.




Yn 2020, cynigiodd Llywodraeth Cymru rai syniadau i roi'r gorau i wastraff yn gyfan gwbl erbyn 2050.

# Coronafeirws




Mae'r Coronafeirws wedi gwneud pethau'n fwy anodd.



Mae llai o gasglu sbwriel a gweithgareddau codi sbwriel yn ystod y cyfnod clo.



Ac wrth i reolau gael eu llacio dros yr haf, roedd mwy o sbwriel. Mae hyn yn cynnwys **Cyfarpar Diogelu Personol** sydd ond yn cael ei ddefnyddio unwaith cyn iddo gael ei daflu i ffwrdd.



Mae **Cyfarpar Diogelu Personol (PPE)** yn meddwl pethau fel menig, mygydau a ffedogau sy'n cael eu gwisgo i helpu i rwystro heintiau rhag ymledu.

# Ein gwaith

Oherwydd y coronafeirws, roedd yn rhaid i ni newid ein cynlluniau a gweithio dros y cyfrifiadur:



- Fe ysgrifennon ni flogiau a gwneud blogiau i annog pobl ifainc i feddwl am yr amgylchedd. A rhannu syniadau ar gyfer **ailgylchu**, **ailddefnyddio** ac **arbed gwastraff**.



- Fe ofynnon ni i blant a phobl ifainc i gymryd rhan yn ein harolwg ar-lein.



- Fe roion ni gyfle i bobl ifainc gymryd rhan mewn gweithdai a sesiynau ar-lein.



- Fe siaradon ni am sbwriel a gwastraff plastig â Hannah Blythyn AS – y Dirprwy Weinidog Tai  a Llywodraeth Leol.



- Fe siaradon ni â'r Prif Weinidog am ein profiadau yn ystod y coronafeirws.



- Fe glywson ni oddi wrth athrawon a mudiadau sy'n arbenigo mewn addysg a materion yr amgylchedd.



# Y pethau ddywedodd pobl ifainc



Dywedodd y rhan fwyaf o'r bobl ifainc a atebodd yr arolwg fod lleihau gwastraff plastig yn bwysig iddyn nhw.

Dywedodd llawer o bobl ifainc ei bod yn bwysig i **arbed**, **ailddefnyddio** ac **ailgylchu gwastraff**:



- gartref



- wrth fod allan gyda theulu a ffrindiau




- ac yn yr ysgol.



Dywedodd y rhan fwyaf eu bod nhw'n gwybod beth roedden nhw'n gallu ailgylchu.



Dywedodd dros hanner eu bod nhw'n gwybod ffyrdd o leihau gwastraff, ar wahân i ailgylchu.




Ychydig iawn o bobl ddywedodd y buasen nhw'n gwneud cwyn neu'n siopa rywle arall pe na fuasai'r siop yn lleihau neu'n ailgylchu gwastraff.



Dywedodd rhai pobl ifainc hefyd eu bod nhw am i siopau a busnesau wneud mwy i ailgylchu gwastraff.



Dywedodd llawer o bobl ifainc yr hoffen nhw i blastig untro gael ei wahardd. A dywedodd dros hanner y dylai eitemau sy'n defnyddio plastig untro gostio mwy.

Dywedodd llawer o bobl ifainc fod arnyn nhw eisiau **arbed**, **ailddefnyddio** ac **ailgylchu** gwastraff oherwydd eu bod wedi dysgu hynny gan:



- rieni, gofalwyr ac aelodau o'r teulu



- athrawon



- pobl ar y teledu a'r cyfryngau fel David Attenborough a Greta Thunberg.



Dywedodd llawer o bobl ifainc y dylai lleihau sbwriel a gwastraff plastig gael ei ddysgu mewn ysgolion a cholegau.

# Y pethau ddysgon ni



Mae arnon ni angen gwneud mwy i ddysgu pobl ifainc am ffyrdd eraill i leihau gwastraff.



Dylai ysgolion a cholegau helpu pobl ifainc i ddysgu am leihau sbwriel a gwastraff plastig.



Mae pobl ifainc yn teimlo na allan nhw wneud i newid ddigwydd yn eu hardal leol.



Mae arnon ni angen gwneud mwy i ddweud wrth bobl ifainc am y newidiadau y gallan nhw wneud.

# Y pethau ddywedodd pobl ifainc am wasanaethau i leihau sbwriel a gwastraff

## Mewn ysgolion a cholegau:



- Dywedodd llawer o bobl ifainc eu bod nhw'n gallu ailgylchu papur.



- Dywedodd mwy na hanner eu bod nhw'n gallu ailgylchu caniau diod a phecynnau.



- Ychydig iawn o bobl ifainc ddywedodd y gallen nhw ailgylchu gwastraff bwyd.



- Dywedodd llawer o bobl ifainc yr hoffen nhw ailgylchu pethau eraill fel peniau ffelt, dillad, caniau diod a gwastraff bwyd.



- Dywedodd mwy na hanner y dylai fod grŵp i edrych ar faterion amgylcheddol.



- Dywedodd athrawon fod arnyn nhw angen amser ac **adnoddau** i gael grwpiau i edrych ar faterion amgylcheddol.



Mae **adnoddau** yn bethau defnyddiol sydd gennym ni neu  bethau rydyn ni'n berchen arnyn nhw. Er enghraifft, adeiladau, cerbydau, gwybodaeth, arian a staff.



## Mewn ardaloedd lleol:




- Dywedodd tua naw allan o ddeg o bobl ifainc y gallan nhw ailgylchu poteli plastig gartref neu yn yr ardal leol.



- Dywedodd llai na hanner y gallan nhw ailgylchu pethau fel hambyrddau plastig, potiau, cardfwrdd, gwastraff bwyd, dillad, gwydr.



- Dywedodd llawer o bobl ifainc wrthyn ni bod arnyn nhw angen mwy o wasanaethau yn yr ardal leol i leihau sbwriel a gwastraff plastig. Fel biniau sbwriel, biniau ailgylchu a ffynhonnau ail-i dŵr.

# Y pethau ddysgon ni



Dylai ysgolion a cholegau wneud mwy i helpu pobl ifainc i ailgylchu mwy o bethau.



Dylai awdurdodau lleol gefnogi ysgolion i leihau gwastraff.



Mae arnon ni angen gwneud pobl ifainc yn ymwybodol o'r ffordd y mae gwastraff dillad yn gallu bod yn ddrwg i'r amgylchedd.



Mae arnon ni angen mwy o finiau sbwriel a biniau ailgylchu mewn lleoedd cyhoeddus o amgylch Cymru.

# Y pethau rydyn ni'n meddwl sydd angen digwydd nesaf



1. Dylen ni ganolbwyntio ar ddysgu pobl ifainc am y ffordd y mae sbwriel a gwastraff plastig yn gallu bod yn ddrwg i'r amgylchedd. A'r pethau y gallan nhw wneud i helpu.



2. Gwneud yn siŵr bod rhieni a theuluoedd yn cael yr wybodaeth gywir ynghylch lleihau ac ailgylchu gwastraff.



3. Cefnogi ysgolion a cholegau i ailgylchu mwy o bethau. Lleihau y defnydd o bethau plastig sydd ond yn gallu cael eu defnyddio unwaith.



4. Mae arnon ni eisiau i fwy o ysgolion o amgylch Cymru gael grwpiau i edrych ar faterion amgylcheddol.



5. Dylai awdurdodau lleol edrych ar ffyrdd o helpu ysgolion a cholegau i gael eu rhedeg mewn ffordd sy'n well ar gyfer yr amgylchedd.



6. Dylai awdurdodau lleol brynu gwasanaethau gan gyflenwyr sy'n eu helpu i gyrraedd eu nodau ar gyfer yr amgylchedd a lles.



7. Mae arnon ni eisiau i Lywodraeth Cymru wneud yn siŵr bod pobl ifainc yn cael dweud eu barn ynglŷn â materion sy'n effeithio arnyn nhw.




8. Dylai Llywodraeth Cymru wneud deddf ar gyfer **cyrff cyhoeddus** i ddweud bod yn rhaid gwrando ar blant a phobl ifainc wrth wneud penderfyniadau.

Mae **cyrff cyhoeddus** yn fudiadau sy'n cael arian gan Lywodraeth Cymru i redeg gwasanaethau ar gyfer pobl yng Nghymru. Er enghraifft, y GIG a gwasanaethau tân ac achub.



9. Dylai fod mwy o finiau sbwriel, biniau ailgylchu a gorsafoedd ail-lenwi dŵr mewn mannau cyhoeddus ar draws Cymru.



10. Mae arnon ni eisiau i Lywodraeth Cymru ddod â'r defnydd o blastig untro i ben yn gyflym.

# Geiriau anodd

## Adnoddau

Mae adnoddau yn bethau defnyddiol sydd gennym ni neu bethau rydyn ni'n berchen arnyn nhw. Er enghraifft, adeiladau, cerbydau, gwybodaeth, arian a staff.

## Amgylchedd

Yr amgylchedd yw'r lle rydyn ni'n byw. Mae'n cynnwys y tir, y môr, yr aer a phopeth sy'n byw arnyn nhw ac ynddyn nhw. Er enghraifft: planhigion, anifeiliaid a physgod.

## Cyfarpar Diogelu Personol

Mae Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) yn meddwl pethau fel menig, mygydau a ffedogau sy'n cael eu gwisgo i helpu i rwystro heintiau rhag ymledu.

## Cyrff cyhoeddus

Mae cyrff cyhoeddus yn fudiadau sy'n cael arian gan Lywodraeth Cymru i redeg gwasanaethau ar gyfer pobl yng Nghymru. Er enghraifft, y GIG a gwasanaethau tân ac achub.

## Newid hinsawdd

Mae hinsawdd yn meddwl y math o dywydd sy'n dueddol o ddigwydd mewn gwahanol wledydd neu rannau o'r byd dros gyfnod hir. Mae newid hinsawdd yn ymwneud â newidiadau i batrymau tywydd y byd fel ein haer a'n dŵr yn cynhesu.